**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**
**8 CHWEFROR 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mawrth, 8 Chwefror 2022.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, David Evans, George Hardcastle, Patrick Heesom, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorydd Andy Hughes

**DIRPRWYON:**
Y Cynghorydd Martin White (ar ran y Cynghorydd Cindy Hinds)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Chris Bithell (Aelod Cabinet Gwarchod y Cyhoedd a Chynllunio)
Y Cynghorydd Derek Butler (Aelod Cabinet Datblygu Economaidd)
Y Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd)
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi)
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)

Ar gyfer cofnod rhif 64 – Rheolwr Rhaglen

Ar gyfer cofnod rhif 65 a 66 – Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio

Ar gyfer cofnod rhif 67 – Rheolwr yr Uned Cludiant Integredig

Ar gyfer cofnod rhif 68 – Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd

Ar gyfer cofnod rhif 69 – Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 61. DATGAN CYSYLLTIADAU

Dim.

## 62. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021 ac 11 Ionawr 2022 i'w hystyried.

9 Tachwedd 2021

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Shotton ac eiliodd y Cynghorydd Joe Johnson y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021.

11 Ionawr 2022

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Shotton ac eiliodd y Cynghorydd Joe Johnson y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2022.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021 ac 11 Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

## 63. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Mae'r cyfarfod am 10.00 am ar 8 Mawrth wedi'i newid i Sesiwn Friffio ar y System Hyblyg. Bydd cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor ar 7 Mehefin a 5 Gorffennaf.

Gan symud ymlaen at yr adroddiad ar olrhain camau gweithredu, darparodd yr Hwylusydd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a chadarnhaodd y byddai'r eitem ar Farchnadoedd Canol Tref y Fflint a Bwcle yn aros ar yr Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu. Cytunodd Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd i siarad efo'r Cynghorydd Thomas ar ôl y cyfarfod ynglŷn â'i bryderon am yr adolygiad o drefniadau torri gwair.

Gofynnodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson a oes modd cynnwys eitem ar farciau strydoedd. Awgrymodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) ei fod yn siarad efo'r Cynghorydd Hutchinson ar ôl y cyfarfod i drafod y lleoliadau sy'n achosi problemau. Eiliodd y Cynghorydd Hardcastle gais y Cynghorydd Hutchinson i gynnwys hyn ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton ac Owen Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd;

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r camau gweithredu sy'n weddill.

## 64. STRATEGAETH NEWID HINSAWDD

Wrth gyflwyno'r adroddiad eglurodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod yr awdurdod wedi penderfynu bod yn garbon niwtral yn 2019. Mae Alex Ellis wedi'i benodi'n Rheolwr Rhaglen i ddatblygu'r Strategaeth Newid Hinsawdd. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yr wythnos nesaf ac yna i'r Cyngor Sir.

Dywedodd Rheolwr y Rhaglen fod Llywodraeth Cymru, yn 2019, wedi galw ar awdurdodau sector cyhoeddus i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Ym mis Rhagfyr 2019 penderfynodd y Cabinet ddatblygu Strategaeth Newid Hinsawdd sy’n nodi cynigion y Cyngor i fod yn gyngor carbon niwtral erbyn 2030. Mae’r Cyngor wedi darparu gweithgareddau datgarboneiddio ers sawl blwyddyn, yn cynnwys cynlluniau ynni ac ynni adnewyddadwy. Mae’r Strategaeth Newid Hinsawdd yn nodi amcanion y Cyngor i symud tuag at y nod sero net a darparodd drosolwg o’r gwaith ymgysylltu sydd wedi’i wneud a’r adborth a dderbyniwyd. Gan gyfeirio at y strategaeth, darparodd wybodaeth am ffigyrau allyriadau gwaelodlin ac amlygodd y gwaith sydd wedi’i wneud hyd yma a’r amcanion arfaethedig i leihau allyriadau uniongyrchol yn y sir. Mi fydd yna oblygiadau ariannol yn nhermau refeniw a chyfalaf a bydd angen rhoi sylw pellach i’r camau gweithredu dan bob thema er mwyn deall y goblygiadau o ran adnoddau. Mae’r Cyngor wedi defnyddio sawl ffynhonnell ariannu a rhagwelir y bydd cyllid ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd Rheolwr y Rhaglen at y strategaeth ac amlygodd y pwyntiau canlynol:

- Dan bwynt 6.7 ar dudalen 53 – gwybodaeth am ffigyrau gwaelodlin allyriadau carbon yn seiliedig ar ddata allyriadau 2018/19. Cadarnhaodd fod yna ostyngiad o 17% yn y waelodlin honno yn 2021.

- Dan bwynt 7.1 ar dudalen 55 – mae’r siart yn rhagfynegi’r gostyngiadau y gallai’r camau gweithredu eu cyflawni ond mae hynny’n gadael bwlch o 20,000 mewn C02 erbyn 2030. Eglurodd fod mesurau nad ydynt ar gael eto ac y byddai hyn yn cael ei fonitro a’i ystyried pan fydd y strategaeth yn cael ei hadolygu ymhen dwy flynedd. Mae mantoli allyriadau gyda phlannu coed wedi’i amlinellu a byddai ar y Cyngor angen blaenoriaethu sut mae asedau tir yn cael eu neilltuo ar gyfer hyn.

- Dan bwynt 7.10 ar dudalen 57 – mae hyn yn amlygu’r targedau dros dro dan y themâu allyriadau carbon uniongyrchol.

- Dan bwynt 8.1 ar dudalen 58 – darparwyd crynodeb o’r nodau allweddol dan bob thema.

- Mae bioamrywiaeth wedi’i integreiddio yn y strategaeth, gan roi ystyriaeth i newid hinsawdd a datgarboneiddio. Darparwyd gwybodaeth am sut mae’r rhain yn cael eu cynnwys a’r hyfforddiant sydd ei angen.

Eglurodd Rheolwr y Rhaglen y byddai’r Cyngor, drwy gyrraedd y nodau hyn, yn gallu cyrraedd ei dargedau sy’n mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd a’r targed Cymru Sero Net erbyn 2050. Byddai’r Cyngor hefyd yn cyrraedd ei nodau dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant a Deddf yr Amgylchedd. Gorffennodd drwy ddweud fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet yr wythnos nesaf a bod gwaith yn cael ei wneud dan bob thema i nodi’r statws presennol a’r goblygiadau o ran adnoddau.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â phennu targedau, cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen fod y rhagfynegiadau gostyngiadau yn seiliedig ar gamau gweithredu sydd eisoes ar waith. Gan fod y Cyngor wedi bod yn

rhagweithiol gyda'r camau hawdd eu cymryd, yr hyn sydd ar ôl yw'r camau mwy cymhleth fel gwelliannau i'r fflyd. Mae bwrw ymlaen â'r camau hyn yn ddibynnol ar ddeddfwriaeth ac adnoddau Llywodraeth Cymru a datblygiadau technolegol.

Gofynnodd y Cynghorydd Owen a yw'r ysgolion newydd a'r estyniadau wedi cyrraedd y targed carbon niwtral o 100%. Mewn ymateb, cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen, yn dilyn y mandad newydd a ddaeth i rym fis Ionawr, y bydd datblygiadau arfaethedig yn gorfod cyrraedd y targedau hynny. Cadarnhaodd mai'r ffocws yw gwneud adeiladau presennol yn fwy ynni effeithlon. Cadarnhaodd Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod paneli ffotofoltäig wedi'u gosod ar ysgolion i sicrhau eu bod yn fwy ynni effeithlon. Bydd yr ysgol newydd ym Mynydd Isa yn sero net ac wedi'i hariannu drwy gyllid Llywodraeth Cymru.

Gan gyfeirio at bwynt y Cadeirydd am dargedau, cadarnhaodd Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod yna fwy o ffocws ar 2030 gan fod llawer o'r targedau yn ymwneud â chaffael. Mae dylanwadu ar y gadwyn gyflenwi a chaffael nwyddau a gwasanaethau yn anodd a byddai'n cymryd amser i sefydlu, ond mae'r buddion posibl yn arwyddocaol iawn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Patrick Heesom am fancio tir, eglurodd Rheolwr y Rhaglen mai blaenoriaeth y Cyngor yw lleihau allyriadau carbon ac y byddai defnyddio darnau o dir ar gyfer mantoli allyriadau angen ystyriaeth ofalus. Pan fydd tir yn dod ar gael byddai'n rhaid i'r Cyngor benderfynu a fyddai modd ei neilltuo ar gyfer plannu coed er mwyn atafaelu carbon i fantoli allyriadau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Vicky Perfect, cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen y byddai'r Strategaeth Plannu Coed Trefol a Choetir yn cael ei hadolygu i nodi tiroedd addas i atafaelu carbon. Mae'n rhaid ystyried ansawdd y tir, y dirwedd ac a fyddai'r prosiect yn sympathetig i'r ardal gyfagos. Byddai'r Tîm Amgylchedd Naturiol yn sicrhau bod y tir yn briodol.

Dywedodd Aelod Cabinet Gwarchod y Cyhoedd a Chynllunio fod gwerthiannau tir yn rhan o Raglen Gyfalaf y Cyngor. Yna fe gyfeiriodd at y datrysiadau sydd wedi'u cyflawni i ddelio gyda ffosffadau a dywedodd fod cynllun ac ymrwymiad eisoes yn eu lle ar gyfer plannu coed, gan fod gan y sir orchudd coed isel. Mae angen ystyried clefyd coed ynn hefyd. Er mwyn i'r Cyngor gyflawni mae'n rhaid ymgysylltu gyda sefydliadau eraill.

Cytunodd Aelod Cabinet y Gwasanaethau Stryd gan ddweud bod hyn yn gyfrifoldeb ar bawb. Dywedodd fod cynnal cyfarfodydd ar-lein yn hytrach nag yn Neuadd y Sir wedi cyfrannu rhywfaint at arbed carbon.

Siaradodd y Cynghorydd Sean Bibby, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Newid Hinsawdd, gan ddiolch i'r Prif Swyddog a chydweithwyr am eu gwaith caled.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Sean Bibby a Patrick Heesom.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni mesurau lleihau carbon.

(b) Cymeradwyo Strategaeth Newid Hinsawdd 2022-2030 a'i nodau.

## 65. CAIS AM GYLLID GRANT I HYRWYDDO MENTRAU TRWSIO AC AILDDEFNYDDIO

Wrth gyflwyno'r adroddiad amlinellodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) y cynnig ar gyfer y cais ariannol ar y cyd ar gyfer prosiect ailddefnyddio gyda Refurbs Sir y Fflint, sydd wedi'i gyflwyno i'r Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Gan nad yw'r cyllid hwn ar gael i'r Cyngor darparwyd cymorth i helpu Refurbs Sir y Fflint i gyflwyno cais. Roedd hyn yn dod o dan Lleihau Gwastraff a Dargyfeirio Gwastraff o Safleoedd Tirlenwi.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio fod hyn wedi derbyn sylw yn 2019 ac, yn dilyn trafodaethau gyda thrigolion a sylwadau mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, ei fod yn cael ei adolygu. Roedd yna lawer o eitemau y gellir eu hailddefnyddio a'u hailgylchu yn cael eu gwaredu. Cysylltwyd ag elusennau i ddod i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref i siarad gyda phreswylwyr er mwyn atal eitemau o ansawdd rhag cael eu taflu. Roedd llawer o elusennau yn awyddus i gymryd rhan ond yna fe darodd y pandemig a rhoddwyd stop ar y gwaith. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal unwaith eto gyda'r elusennau i fwrw ymlaen â hyn ac mae cynigion ar gyfer y cynllun peilot, gyda Refurbs yn y lle cyntaf, yn cael eu datblygu. Cyfeiriodd at 1.05 yn yr adroddiad sy'n manylu ar y cynigion a'r trefniadau ar gyfer y cynhwysydd storio. Byddai'r eitemau hyn yn cael eu casglu o bob safle a'u danfon i ganolfan sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor. Byddai'r eitemau wedyn yn cael eu didoli i gategorïau fel teganau a bric-a-brac ac ati i elusennau eu gwerthu. Byddai llyfrgell hefyd yn cael ei chreu yn y ganolfan ar gyfer deunyddiau wedi'u recordio a llyfrau. Unwaith y mae popeth yn ei le, rhagwelir y byddai eitemau yn cael eu danfon yn uniongyrchol i'r ganolfan yn hytrach na'r canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Mae yna hefyd gynigion ar gyfer casgliadau wrth ymyl y ffordd, ar gyfer tecstilau yn y lle cyntaf. Os llwyddir i gael y cyllid byddai ymgyrch hysbysebu yn cael ei chynnal gyda gwirfoddolwyr Refurbs ac elusennau eraill sy'n gweithio yn y canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd a hyrwyddo'r cynllun. Darparodd drosolwg o'r eitemau y byddai'r cynllun peilot yn edrych arnynt.

Gan gyfeirio at y cyllid grant cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio fod yna gystadleuaeth frwd ac mai dim ond un ymgeisydd llwyddiannus sydd yna bob blwyddyn. Mae'r cynnig yn un beiddgar ac uchelgeisiol iawn, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn sefyll allan. Os yw'n aflwyddiannus, bydd y gwaith i ganfod cyllid ychwanegol yn parhau. Os yn llwyddiannus, byddai'r prosiect yn cael ei gynnal o fis Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2023, yn dibynnu ar y cyllid. Mae isadeiledd, adeiladau a cherbydau wedi derbyn sylw ond y prif ffocws yw hyrwyddo hyn a chodi ymwybyddiaeth. Mae yna fuddion

i’r elusennau a byddai’r cyhoedd yn llai tebygol o daflu eitemau defnyddiol. Dywedodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) y byddai pobl yn llai tebygol o waredu’r eitemau hyn mewn canolfannau ailgylchu gwastraff ar ôl iddynt ddysgu am y gwasanaeth, ac felly yn achub eitemau da rhag cael eu cludo i safleoedd tirlenwi. Mae’n rhaid hefyd ystyried trwyddedau amgylcheddol ac mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ein bod ni’n cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth.

Dywedodd y Cadeirydd fod hyn yn syniad gwych a gofynnodd a fyddai eitemau trydanol bach yn cael eu cynnwys ac a fyddai’r gwasanaeth casglu tecstilau yn wasanaeth rhad ac am ddim. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio na fyddai eitemau trydanol bach yn cael eu derbyn yn y lle cyntaf ond, petai galw, yna byddai modd edrych ar hynny yn y dyfodol. Byddai’r gwasanaeth casglu tecstilau yn un rhad ac am ddim dan y cyllid grant. Bydd ein dealltwriaeth yn gwella ar ôl y cynllun peilot ac os yw’n llwyddiannus byddai’n rhaid i’r gwasanaeth fod am ddim.

Dywedodd Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd fod hon yn fenter wych, a bod Refurbs yn bartner da. Dymunodd yn dda i’r tîm gyda’r cynigion a diolchodd i’r staff yn y canolfannau ailgylchu gwastraff am eu brwdfrydedd a’u gwaith caled.

Dywedodd Aelod Cabinet Datblygu Economaidd fod hyn wedi’i wneud o’r blaen cyn dechrau gweithio gyda Refurbs. Oherwydd y pandemig teimlodd fod llawer o eitemau wedi’u gwaredu yn barod a dywedodd fod rhai elusennau yn fisi iawn gyda’r hyn maent yn eu derbyn.

Dywedodd y Cadeirydd fod yna gwmpas mawr i hyn, yn enwedig o ran ymgysylltu â phobl wedi ymddeol i drosglwyddo eu sgiliau i’r genhedlaeth iau.

Cytunodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) gyda sylwadau’r Cynghorydd Butler ac nad yw hyn yn rhywbeth newydd ond mae cyllid grant wedi’i ddyfarnu yn y gorffennol i brosiectau tebyg. Gobeithio y bydd y cais am gyllid yn llwyddiannus, ond mae Cymru gyfan yn cystadlu amdano.

Soniodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio am y ganolfan a’r caffi trwsio ac ailddefnyddio ar hen safle’r ganolfan ailgylchu ym Mwcle. Cafwyd cyllid Economi Cylchol ar gyfer hyn, ac mae’r caffi yn cefnogi’r gwaith o ddarparu gweithdai a dosbarthiadau ar uwchsgilio a rhoi defnydd newydd i eitemau. Cyfeiriodd at sgiliau’r gwirfoddolwyr a soniodd am ymgyrch hysbysebu sy’n cael ei lansio i weld a oes gan unigolion eraill sydd wedi ymddeol ddiddordeb ymuno â’r tîm i addysgu pobl ifanc sut i achub ac ailddefnyddio eitemau. Byddai hwn yn ganolbwynt i’r gymuned.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid anfon gwybodaeth at bob Aelod er mwyn iddynt rannu’r wybodaeth yn eu wardiau. Cytunwyd ar hyn.

Dywedodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) mai'r gobaith yw cael canolfannau tebyg ymhob tref ac mewn cymunedau mawr. Byddai hyn hefyd yn cyfrannu at darged ailgylchu'r Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson fod hyn yn wych a bod trafodaethau yn cael eu cynnal ar gael canolfan arddio ym Mwcle ac y byddai un ymhob cymuned fawr yn beth da.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr George Hardcastle a Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cefnogi cyflwyno cais am gyllid grant i hyrwyddo mentrau trwsio ac ailddefnyddio.

## 66. CASGLIADAU GWASTRAFF SWMPUS

Cyflwynodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) yr adroddiad yn dilyn cais gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd y llynedd. Mae'r pandemig wedi effeithio ar gasgliadau eitemau swmpus ac mae'r camau gweithredu a'r heriau sy'n wynebu Refurbs wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Darparodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio drosolwg o'r gwasanaeth casglu eitemau swmpus, sy'n ffordd i bobl waredu eitemau sy'n rhy fawr i'r casgliadau wrth ymyl y ffordd. Darparwyd trosolwg o'r eitemau a ystyrir yn wastraff swmpus. Mae Refurbs Sir y Fflint yn casglu eitemau y mae modd eu hailddefnyddio, eu trwsio a'u hailwampio ac yna'n eu gwerthu am brisiau rhesymol yn eu hystafell arddangos yn y Fflint. Cedwir cofnod o'r holl eitemau sy'n cyd-fynd â'n perfformiad a'n targed ailgylchu o 70%. Mae Atodiad 1 yn cynnwys yr eitemau y mae Refurbs yn eu casglu ond cadarnhaodd nad oes modd ailgylchu gwastraff ailwampio cartrefi, fel ceginau, ystafelloedd ymolchi ac eitemau gardd, drwy'r gwasanaeth hwn. Gofynnir i drigolion waredu'r eitemau hyn yn briodol drwy gontractwr gwastraff cymeradwy. Mae'r Cyngor yn casglu nwyddau gwyn fel oergelloedd yn rhad ac am ddim.

Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio at amserlenni casgliadau Refurbs, sydd fel rheol o fewn 6 diwrnod gwaith gyda'r eitemau yn cael eu gadael o fewn ffiniau eiddo. Mae Refurbs yn helpu pobl ar gais. Mae yna ffi o £40 am hyd at 5 eitem a £5 am bob eitem ychwanegol a £65 am 10 eitem. Mae yna ostyngiad i bobl sy'n derbyn budd-daliadau (£20 a £5 am bob eitem ychwanegol) a gellir trefnu'r gwasanaeth hwn ddwywaith y flwyddyn. Mae'r ffioedd hyn yn cael eu hadolygu o fewn y Polisi Ffioedd a Thaliadau yn flynyddol.

Mae adran 1.06 yr adroddiad yn nodi nifer y ceisiadau a'r tunelli a gasglwyd, ond fe gafodd y gwasanaeth hwn ei atal yn ystod y pandemig a bu'n rhaid cau'r safleoedd ailgylchu gwastraff y cartref. Yn anffodus fe arweiniodd hyn at ffyniant gwasanaethau "dyn mewn fan" ar y cyfryngau cymdeithasol, ond nid yw'r unigolion hyn wedi'u rheoleiddio ac nid oes gan drigolion unrhyw syniad i ble mae'r gwastraff yn mynd. Anogwyd trigolion i holi ble mae'r eitemau yn cael eu gwaredu.

Roedd archebion Refurbs wedi cronni ar ôl y pandemig ac os oedd y dyddiad yn rhy bell i drigolion roeddynt yn cael eu hargymell i ddefnyddio gwasanaeth cofrestredig. Roedd gan Refurbs hefyd lai o staff, oherwydd gofynion hunan-ynysu neu ddulliau gweithio cyfyngedig, ac roedd recriwtio hefyd yn broblem gan fod hon yn fenter gymdeithasol. Roedd trigolion yn cael gwybod pryd y byddai'r tîm yn casglu'r nwyddau a'r staff yn darparu diweddariadau iddynt. Mae'r amser casglu wedi'i ymestyn i 10 i 15 diwrnod gwaith. Mae yna oedi o hyd ond wrth symud yn ein blaenau mae'r gwasanaeth ar y trywydd cywir bellach.

Gofynnodd y Cynghorydd George Hardcastle a oes modd rhannu'r wybodaeth yn 1.05 am ffioedd gwastraff swmpus gyda phob Aelod er gwybodaeth. Cytunwyd ar hyn.

Diolchodd y Cynghorydd Sean Bibby i'r swyddogion am ddarparu eglurhad manwl am yr eitemau sy'n cael eu casglu. Cyfeiriodd at ei ward a gofynnodd a oes hyblygrwydd o ran eiddo teras neu fflatiau heb ofod y tu allan neu ardal gymunedol, ac roedd yn pryderu y gallai hyn gael ei ystyried yn tipio anghyfreithlon. Cyfeiriodd hefyd at y gost o £40, sy'n werth da am 5 eitem ond yn ddrud iawn ar gyfer un eitem. Mewn ymateb cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio, os yw trigolion yn egluro pan fyddant yn archebu nad oes ganddynt ofod y tu allan i'r eiddo, y byddai staff Refurbs yn ffonio ac yn darparu dyddiad casglu i'r trigolion hynny yn hytrach na gofyn iddynt adael yr eitemau y tu allan. Mae'r Tîm Casgliadau Gwastraff Swmpus a'r Tîm Gorfodi yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn ymwybodol o'r eitemau sy'n cael eu gadael allan i'w casglu. O ran y gost o £40, mae hynny'n cwrdd â'r gost o ddarparu cerbyd a dau unigolyn i gasglu'r eitem. Gellir edrych ar hyn pan fydd y ffioedd a'r taliadau yn cael eu hadolygu.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Datblygu Economaidd y dylai'r cyhoeddusrwydd werthu'r ffaith bod yr eitemau hyn yn mynd i gael eu hailddefnyddio. Gyda'r dynion mewn fan, er eu bod yn codi prisiau is na'r Cyngor, ni cheir gwybodaeth am ble mae'r eitemau'n mynd neu a ydynt yn cael eu hailgylchu.

Cytunodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) a dywedodd fod yna broblem gyda masnachwyr "dyn mewn fan". Fe ddylai'r ymgyrch hysbysebu atgoffa trigolion bod yn rhaid iddynt sicrhau bod gan y darparwyr drwyddedau i gludo a gwaredu gwastraff yn gywir. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio fod swyddog newydd wedi'i recriwtio i'r Tîm Gorfodi fel Cydlynydd Gwelliannau Amgylcheddol, a fydd yn siarad efo trigolion, grwpiau cymunedol a chynghorau tref a chymuned i ledaenu'r neges hon.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd at "ddynion mewn fan" ac roedd arno eisiau gweld y ddeddfwriaeth yn cael ei thynhau fel bod yn rhaid iddynt ddangos bod ganddynt drwydded ar eu hysbysebion. O ran y gost o £40 awgrymodd y dylai trigolion siarad gyda'u cymdogion a dod at ei gilydd i gwrdd â'r gost fel bod pobl yn talu £20 yr un er enghraifft. Teimlodd hefyd y dylai gwneuthurwr matresi fod yn gyfrifol am waredu hen fatresi.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu yr oedd hi wedi mynd iddo'n ddiweddar lle'r oedd masnachwr metel sgrap yn gorfod cadarnhau i'r Cyngor ei fod yn talu Treth y Cyngor er mwyn cael trwydded. Holodd a oes modd gwneud hyn gyda "dynion mewn fan".

Teimlodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson fod tipio anghyfreithlon yn lleihau yn hytrach na chynyddu, sy'n beth da.

Dywedodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod y trwyddedau cludo gwastraff yn hawdd iawn eu cael ac yn costio £200. Mae angen newid y ddeddfwriaeth i gynnwys ble maent yn bwriadu gwaredu'r gwastraff ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych i mewn i hyn.

Mewn ymateb i'r sylw am dipio anghyfreithlon cyfeiriodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) at adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor fis Mehefin y llynedd. Dywedodd fod cynnydd wedi bod mewn tipio anghyfreithlon oherwydd casgliadau "dynion mewn fan" – gan nad yw Tîm Gorfodi'r Cyngor wedi gallu mynd allan a bod y canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref wedi bod ar gau. Mae'r sefyllfa wedi gwella ac mae yna lai o ardaloedd problemus rŵan, sy'n beth da yn enwedig gyda gallu uwch y Tîm Gorfodi a phenodi Cydlynydd Gwelliannau Amgylcheddol i ymgysylltu â chymunedau.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr George Hardcastle ac Owen Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor Craffu yn croesawu'r adroddiad ac yn cefnogi'r gwaith a wnaethpwyd i gynnal casgliadau gwastraff swmpus yn ystod y pandemig.

## 67. EFFAITH Y PANDEMIG AR WASANAETHAU BWS CYHOEDDUS (MASNACHOL A CHYMHORTHDAL) A'R CYNNYDD MEWN COSTAU GWEITHREDU CLUDIANT

Wrth gyflwyno'r adroddiad eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod y Pwyllgor Adfer, ym mis Tachwedd, wedi argymell cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor. Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar wasanaethau cludiant cyhoeddus. Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r hyn a ddigwyddodd, a'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith i gefnogi gweithredwyr mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

Eglurodd Rheolwr yr Uned Cludiant Integredig fod y pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar gludiant ysgol a gwasanaethau cludiant cyhoeddus ar draws y wlad. Roedd colli teithwyr ynghyd â chadw pellter cymdeithasol a chostau COVID wedi ychwanegu at y pwysau sydd ar y gwasanaethau. Roedd yn rhaid i weithredwyr atal gwasanaethau a bu newidiadau i'r canllawiau, ond fe ddarparwyd cefnogaeth i liniaru effaith y gwasanaethau a ataliwyd. Cyflwynodd Lywodraeth Cymru'r Gronfa Galedi ac mae trosolwg o hon, a'r ffioedd consesiwn yr oedd yn rhaid i deithwyr eu talu, wedi'u darparu. Cyflwynwyd y Cynllun Brys ar gyfer Bysiau fis Gorffennaf 2020, gan barhau i gadw incwm cwmnïau ar lefelau hanesyddol. Sir y Fflint oedd yr awdurdod cynnal yng ngogledd Cymru, gan ddyrannu a phrosesu'r cyllid gyda chefnogaeth swyddogion rhanbarthol. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i weithredwyr gyfrannu a gwella rhwydweithiau rhanbarthol, a oedd yn rhan o'r cytundeb ar gyfer Sir y Fflint ac ar draws y gogledd. Eglurodd Rheolwr yr Uned Cludiant Integredig fod y Cynllun Brys ar gyfer Bysiau 1.5 wedi'i gyflwyno i helpu gweithredwyr i ddychwelyd i gynnig y gwasanaeth llawn, yn enwedig o ystyried mesurau cadw pellter cymdeithasol pan oedd angen dau fws er mwyn cludo plant i'r ysgol. Darparwyd cyllid y cynllun brys

i sicrhau eu bod yn gweithredu. Bydd cytundeb ariannu hirdymor Cynllun Brys 2 gyda Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn para tan fis Gorffennaf 2022, oni bai bod amodau'r farchnad wedi gwella'n sylweddol ac asesiad o'r cyllid sydd ei angen wedi'i gynnal yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Mae gweithredwyr bysiau yn ei chael hi'n fwyfwy anodd i gynnal gwasanaethau gyda nifer y teithwyr wedi lleihau yn ystod y deunaw mis diwethaf. Ym mis Gorffennaf 2020 cafodd gwasanaeth 5 o'r Wyddgrug i Ellesmere Port, oherwydd diffyg refeniw, ei drosglwyddo'n ôl gan y gweithredwr. Gan fod y gwasanaeth hwn yn rhan o rwydwaith craidd y Cyngor cafodd y contract ei roi ar dendr ac roedd y cynigion a ddaeth i law deirgwaith yn fwy na phris y darparwr blaenorol. Defnyddiwyd cyllid y cynllun brys i gwrdd â'r cynnydd ond roedd pwysau o £100,000 ar y gyllideb oherwydd hyn. Pan gaiff llwybrau eu cynnig ar dendr mae gan weithredwyr ddau ddewis, tendro ar gostau net neu dendro ar gostau gros, ac eglurodd Rheolwr yr Uned Cludiant Integredig y gwahaniaeth. Mae'r rhan fwyaf o gontractwyr yn defnyddio'r broses contract gros, sy'n rhoi'r risg yn ôl ar y Cyngor o ran refeniw prisiau. Mae gweithredwyr hefyd wedi dweud bod yna gynnydd aruthrol yn eu costau gweithredu – tanwydd/yswiriant/cyflogau a phrinder darnau i gerbydau, colli gyrwyr (HGV a rolau eraill) a hyfforddi gyrwyr, sydd hefyd wedi'i effeithio. Yr unig incwm a gafodd y gweithredwyr oedd cyllid gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru, gan fod teithiau ysgol a theithiau eraill wedi'u canslo a'r Cynllun Brys ddim yn eu cefnogi. Mae'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus yn gwella ond rhagwelir y bydd costau caffael yn y dyfodol yn llawer uwch, bydd hynny yn destun adroddiadau fel pwysau cyllidebol parhaus.

Yna fe ddarparodd Rheolwr yr Uned Cludiant Integredig wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Cyngor, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i adolygu cludiant cyhoeddus Cymru ac amlinellwyd eu dyheadau ar gyfer hyn. Cadarnhaodd fod cam cyntaf y rhaglen wedi'i gwblhau a'r gobaith yw darparu cyflwyniad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i'r Pwyllgor maes o law. Yna darparodd wybodaeth am waith Gweithgor Diwygio Bysiau Llywodraeth Cymru sydd â chynllun pum mlynedd ar gyfer gwasanaethau bws Cymru.

Gan symud ymlaen at gostau cludiant ysgol, eglurodd Rheolwr yr Uned Cludiant Integredig fod y rhain wedi cynyddu'n aruthrol hefyd. Yn 2017 cyflwynodd y Cyngor System Brynu Ddynamig a oedd yn para chwe blynedd tan 2023. Darparwyd trosolwg o'r system a'r hyblygrwydd y mae'n ei rhoi i weithredwyr. Roedd y llwybrau i fod i ddod i ben fis Gorffennaf 2021 ond, oherwydd y pandemig, cafodd y llwybrau eu hymestyn tan fis Gorffennaf 2022 ac amlinellodd y tri cham ar gyfer caffael a'r pwysau cyllidebol sydd ar y llwybrau hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Owen am gynnwys mwy o hyblygrwydd yn y llwybrau, cadarnhaodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) mai nod y cynllun Diwygio Bysiau yw cymryd mwy o reolaeth yn ôl gan weithredwyr i Drafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn darparu sylwadau ac adborth i'r Adolygiad o Rwydweithiau Bysiau, sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru ac yn canolbwyntio ar wneud bysiau yn ddewis amgen i'r car. Amlinellodd bopeth sy'n cael sylw yn yr adolygiad, gyda Sir y Fflint eisoes yn defnyddio'r model sy'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru o ran rhwydwaith bysiau craidd. Amlinellodd beth mae'r Cyngor yn ei ddarparu o ran gwasanaethau craidd a gwasanaethau gwennol.

Canmolodd Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd y gwaith mae Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru wedi'i wneud o ran Cynllun Brys 2 ac roedd yn gobeithio y byddai'r cynllun yn cael ei ymestyn ar ôl mis Gorffennaf, am flwyddyn arall.

Dywedodd Aelod Cabinet Datblygu Economaidd fod dadreoleiddio gwasanaethau bws wedi arwain at y sefyllfa sydd yn ein hwynebu heddiw. Teimlodd fod angen adnoddau cenedlaethol i sicrhau bod yna system gludiant integredig i fynd â phobl i ble bynnag maent eisiau mynd.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Joe Johnson a Patrick Heesom.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi yn croesawu'r adroddiad ac yn cefnogi gwaith y portffolio Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth i gynnal gwasanaethau allweddol yn ystod y pandemig.

(b) Bod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi yn nodi sut cafodd gwasanaethau bws cyhoeddus eu hariannu yn ystod y pandemig, yr effaith ar lefelau bysiau / nifer y teithwyr a'r effaith ar gwmnïau bysiau a'r cynigion i'r dyfodol.

(c) Bod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi yn nodi sut mae'r pandemig wedi effeithio ar wasanaethau cludiant i'r ysgol, y niferoedd isel o weithredwyr sy'n cyflwyno tendrau ar gyfer contractau a'r cynnydd uchel mewn costau.

## 68. CROESFANNAU GYDA CHYRBAU ISEL HYGYRCH I GERDDWYR

Cadarnhaodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno yn dilyn cais gan y Pwyllgor. Mae'n darparu gwybodaeth am geisiadau am groesfannau heb eu rheoli a darparu palmentydd botymog.

Cyfeiriodd Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd at y newidiadau diweddar yn Rheolau'r Ffordd Fawr, sydd wedi'u nodi dan 1.02 yn yr adroddiad. Amlinellodd resymau a manteision gosod croesfannau gyda chyrbau isel i helpu cerddwyr i groesi'r ffordd fawr yn ddiogel a'r safonau sydd yn rhaid eu cyrraedd. Mae Teithio Llesol yn edrych ar ystyriaethau awdurdodau lleol, ond mae darparu'r rhwydwaith integredig llawn yn mynd i gymryd blynyddoedd. Ystyrir croesfannau gyda chyrbau isel pan wneir gwelliannau i briffyrdd neu waith cynnal a chadw, ac mae manylion y broses o wneud cais ar gael yn yr adroddiad. Nid oes cyllid refeniw ar gyfer y ddarpariaeth hon ond fe archwilir cyfleoedd am gyllid grant. Cyfeiriodd Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd at y broses flaenoriaethu, sy'n dryloyw, a'r matrics sgorio a ddisgrifir yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd George Hardcastle am ddyrannu cyllid, eglurodd Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd fod ceisiadau am gyrbau isel yn cael eu hariannu drwy'r grant Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru. Mae cyllid craidd Teithio Llesol yn darparu hyblygrwydd i'r Cyngor fynd i'r afael â llwybrau sydd wedi'u nodi ar y Map Teithio Llesol Integredig a'r rhwydwaith. Hefyd, os gwneir cynlluniau cyllid grant ar gyfer gwelliannau neu waith cynnal a chadw, yna bydd y Cyngor yn edrych ar unrhyw gais a wneir am groesfannau gyda chyrbau isel yn yr ardaloedd hynny a bydd y rheiny'n cael eu darparu ar yr un pryd.

Cyfeiriodd Aelod Cabinet Gwarchod y Cyhoedd a Chynllunio at 1.07 ar dudalen 135 sy'n nodi ei bod yn drosedd rhwystro neu barcio ar gyrbau isel i gerddwyr. Soniodd am achosion o bobl yn parcio ar hyd croesfannau isel yn ei ward a gofynnodd pwy sy'n gyfrifol am orfodi hyn. Mewn ymateb, eglurodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod y tîm gorfodi yn gallu gweithredu os yw'r bobl wedi parcio ar linellau. Os nad oes llinellau, yna byddai'n rhaid galw'r heddlu gan mai rhwystr yw hynny. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio fod hyn yn aneglur mewn ardaloedd preswyl ac nad oes gan y Cyngor bwerau oni bai ei fod mewn ardal orfodi benodol a'r tîm gorfodi yn gallu cyhoeddi Rhybuddion Cosb Benodedig. Byddai angen deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru i orfodi ymhob ardal lle ceir rhwystr ar groesfannau gyda chyrbau isel. Cadarnhaodd fod rhai Rhybuddion Cosb Benodedig wedi'u cyflwyno ond mae'n anodd gan fod yn rhaid i swyddogion fod yn bresennol yno ar y pryd. Gofynnodd i'r Aelodau nodi ardaloedd er mwyn iddi eu rhannu â'r tîm gorfodi er mwyn iddynt gynnal patrôl yn yr ardaloedd problemus. Ychwanegodd Aelod Cabinet Gwarchod y Cyhoedd a Chynllunio fod angen sgwrs gadarn gyda Llywodraeth Cymru a'r Heddlu gan nad yw hyn yn cael ei orfodi ac yn anaddas i'r diben os yw pobl yn parcio wrth eu hymyl yn anystyriol.

Cadarnhaodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod adolygiad cenedlaethol ar y gweill o'r holl barcio ar y stryd a llwybrau troed, sy'n cynnwys cynlluniau 20mya a rhwystrau ger croesfannau gyda chyrbau isel. Disgwylir cynigion gan Lywodraeth Cymru ymhen deuddeg mis.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd George Hardcastle am y canllawiau ar gyfer croesfannau gyda chyrbau isel, cadarnhaodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) mai Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r meini prawf ac nid y Cyngor.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Vicky Perfect.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cefnogi'r broses ar gyfer derbyn a gweithredu ceisiadau am groesfannau hygyrch gyda chyrbau isel i gerddwyr.

## 69. PARC ARFORDIR SIR Y FFLINT

Wrth gyflwyno'r adroddiad eglurodd Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod y Cabinet yn gofyn am farn y Pwyllgor ar ddatblygu parc arfordir.

Cadarnhaodd Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol fod y Rhaglen Mynediad at yr Arfordir, a ddechreuwyd yn 2006, wedi arwain at agor Llwybr Arfordir Cymru. Mae gwaith wedi'i wneud i sefydlu'r cyfeiriad strategol ar gyfer mynediad i'r blaendraeth gyda'r syniadau yn cynnwys parc arfordir (y mae TEP Consultancy wedi cynhyrchu prosbectws ar ei gyfer yn 2014). Darparodd drosolwg o'r fframwaith a'r chwe chanolbwynt, ond ni cheir manylion o ran sut y bydd hyn yn cael ei weithredu, ei ariannu a dan ba bortffolio y bydd. Ers 2014 mae sawl prosiect dan nawdd grant wedi bod yn llwyddiannus, a dywedodd fod awch o hyd i'r datblygiad, yn enwedig ar ôl y pandemig, a theimlwyd bod angen archwilio'r parc arfordir eto, gyda'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â'r cynlluniau i greu parc rhanbarthol ffurfiol. Amlinellodd fanteision parc arfordirol a beth sydd wedi'i gyflawni yn ystod y degawd diwethaf. Byddai angen ailedrych ar y prosbectws i ddeall beth sydd wedi newid ac mae'r Cyngor wedi cysylltu â'r cwmni a greodd y prosbectws i ymgymryd â'r gwaith cwmpasu yma. Soniodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol am gyfarfodydd a gynhaliwyd gyda swyddogion sydd wedi bod yn ymwneud â'r gwaith diweddar yng Nghymoedd y De, a darparodd wybodaeth am y testunau amrywiol a drafodwyd. Mae dadansoddiad o'r buddion, y meini prawf ar gyfer cynnwys, canfod cyfleoedd wedi'u hariannu gan grantiau a sut y byddai hyn yn bwydo i mewn i gefnogi'r cais i'r Gronfa Ffyniant Bro, oll yn cael eu hystyried.

Roedd ar y Cynghorydd Patrick Heesom eisiau sicrhau bod hyn yn deg ac yn dod â budd i'r sir gyfan. Mewn ymateb, cytunodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol fod yna adnodd gwych o'r Fflint i Dalacre i Saltney, ac ased i'r sir gyfan. Byddwn yn ailedrych ar y chwe chanolbwynt a nodwyd ym mhrosbectws 2014 fel rhan o'r astudiaeth gwmpasu newydd. Eglurodd Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod y ddogfen strategaeth sydd ynghlwm wrth yr adroddiad yr un fath â'r un ym mhrosbectws 2014. Mae hyn yn derbyn sylw i sicrhau ei fod yn decach ac yn cynnwys yr arfordir cyfan.

Gofynnodd y Cynghorydd Heesom a fyddai modd i'r Pwyllgor arwain hyn. Mewn ymateb cadarnhaodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) y byddai'r Cyngor Sir yn arwain y cynnig gan gydweithio gyda phob cyngor cymuned ac aelod lleol ar hyd yr arfordir. Byddai'r Cabinet a'r Pwyllgor hwn yn gallu craffu ar unrhyw ddatblygiad a gynigir, a dyna pam bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'w ystyried.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at y Gronfa Ffyniant Bro a gofynnodd a fyddai cost i fusnesau. Canmolodd waith ardderchog ceidwaid yr arfordir a chyfeiriodd at waith yn nociau Cei Connah i dorri'r prysgwydd a'i ymweliad gwych i blannu coed ffrwythau gyda disgyblion uwchradd.

Teimlodd Aelod Cabinet Datblygu Economaidd fod y sir wedi tanwerthu ei hun yn y gorffennol ond, gyda'r Gronfa Ffyniant Bro, bod cyfle i ailedrych ar hyn. Mae yna gyfleoedd i'r parc arfordir a llu o gyfleoedd eraill i gefnogi'r amgylchedd cyfoethog, yn enwedig y dreftadaeth ddiwydiannol. Mae 1.06 ac 1.07 yn amlinellu'r cynigion gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) a chynghorau tref a chymuned sy'n rhan o'r gwaith i fanteisio i'r eithaf ar ffrydiau ariannu fel bod y prosiect yn dwyn ffrwyth.

Ategodd y Cynghorydd Sean Bibby y sylwadau a wnaethpwyd a chyfeiriodd at waith ardderchog yn ei ward i glirio'r prysgwydd. Mae hwn yn

adroddiad gwych a gyda'r ceisiadau Ffyniant Bro mae cyfle i ddiogelu etifeddiaeth ddiwydiannol a lliniaru'r amddifadedd yn rhai o'r ardaloedd hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen Thomas at yr AHNE a theimlodd fod angen cynnwys gwelliannau i'r llwybrau a'r meysydd parcio.

Cyfeiriodd Aelod Cabinet y Gwasanaethau Stryd at y map ar dudalen 160 a dywedodd fod y Parlwr Du a Thalacre o chwith. Gan gyfeirio at Dalacre dywedodd fod yr orsaf drenau eisoes yn ei lle, ac y byddai'n wych pe bai pobl o Lerpwl a Manceinion yn gallu ymweld â Thalacre a Gronant ar y trên. Petai'r gorsafoedd trên wedi'u cysylltu o Faes Glas i'r Fflint a Mostyn, dywedodd y byddai pobl o'r ardaloedd hyn yn defnyddio'r trên yn hytrach na'r car. Cyfeiriodd wedyn at dudalen 169 a oedd yn dweud bod uwchgynllun wedi'i lunio ar gyfer Talacre a Gronant yn 2010 a dywedodd fod wedi'i lunio'n ddiweddarach o lawer.

Dywedodd Aelod Cabinet Gwarchod y Cyhoedd a Chynllunio fod yna 25 milltir o arfordir a oedd yn un o gyfrinachau gorau Sir y Fflint. Mae gan yr ardal lawer i'w gynnig, yn cynnwys safleoedd hanesyddol, petai ar gael.

Cyfeiriodd Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) at bwynt y Cynghorydd Paul Shotton a dywedodd fod y cyswllt rhwng Cei Connah a'r Fflint yn gymhleth iawn gyda gwaith ar y gweill i geisio cael datrysiad. Mae'r pwynt Ffyniant Bro yn cael ei arwain gan Niall Waller gyda therfyn amser yn y gwanwyn. Cadarnhaodd fod modd bwrw ymlaen gyda'r gwaith i ddatblygu Parc Arfordir heb y Gronfa Ffyniant Bro. O ran y Parc Arfordir, nid oes gofynion ar fusnesau i fuddsoddi, ond mae'n bosibl y bydd yn y dyfodol.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Patrick Heesom a Paul Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr Aelodau yn nodi'r cyfeiriad strategol a geir ym Mhrosbectws y Parc Arfordir ac yn cefnogi'r gwaith i ddatblygu a chreu Parc Arfordir Rhanbarthol Sir y Fflint.

(b) Bod y Cabinet yn croesawu barn Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi, ac yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) (mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Datblygu Economaidd) i wneud mân newidiadau i'r cynigion i adlewyrchu'r farn honno.

## 70. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.24 pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**